**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau dan y teitl Cymunedau yn Gyntaf – yr hyn a ddysgwyd.**

---

## Cefndir/Sefyllfa ar hyn o bryd.

Ar ôl ceisio barn yn eang, cyhoeddwyd ar 14 Chwefror 2017 y byddai Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn dirwyn i ben yn raddol er mwyn cyflwyno dull newydd o fynd ati i greu cymunedau cryf. Mae lefelau tlodi yn gyffredinol yng Nghymru wedi aros yn ystyfnig o uchel ac ni all yr un rhaglen ar ei phen ei hun lwyddo i drechu tlodi ar lefel y boblogaeth. Nid yw Cymunedau yn Gyntaf mwyach yn ymateb i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru nac yn adlewyrchu'r blaenoriaethau hynny, ac felly bydd y rhaglen yn dirwyn i ben yn raddol erbyn mis Mawrth 2018.

Bydd y dull gweithredu newydd yn cynnwys ymrwymiad ledled Llywodraeth Cymru i greu cymunedau cryf ar hyd a lled Cymru gan roi pwyslais ar y blynyddoedd cynnar, cyflogaeth a grymuso.

Mae'r Cynllun Cyflogadwyedd ehangach, Tasglu'r Cymoedd, Metros Gogledd a De Cymru, hybu cynhwysiant ariannol a digidol, prosiect Swyddi Gwell yn Nes at Adref a'r cynnig gofal plant newydd i gyd yn rhan o fuddsoddiad sylweddol ar draws Llywodraeth Cymru yn ffyniant ein cymunedau ac yng nghyflogadwyedd unigolion.

Yn unol â bwriad Llywodraeth Cymru i edrych o'r newydd ar y ffordd yr ydym yn cefnogi cymunedau cryf, mae pwyslais y prosiectau strategol sy'n cael eu comisiynu drwy Teuluoedd yn Gyntaf yn newid. Bydd hyn yn fodd o sicrhau y gall y rhaglen wneud mwy i gynorthwyo rhieni, plant a phobl ifanc i feithrin eu gwydnwch a'u hyder a sicrhau llesiant cadarnhaol. Cyhoeddwyd canllawiau diwygiedig rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf ym mis Ebrill 2017 a bydd pob awdurdod lleol yn gweithredu'n unol â'r trefniadau newydd o 1 Ebrill 2018.

Mae tystiolaeth gyson i awgrymu y gall buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar wneud cryn dipyn i wella iechyd, datblygiad cymdeithasol ac addysgol a chanlyniadau hirdymor. Yn yr un modd, gall peidio ag ymdrin ag ymddygiad niweidiol yn y blynyddoedd cynnar gael effaith aruthrol ar y plentyn ac ar gymdeithas. Mae rhaglen Dechrau'n Deg yn cefnogi camau i ymyrryd yn gynnar, ac yn gweithio yn rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae parhad y rhaglen hon yn un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu. Byddwn yn adolygu'r rhaglen i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn effeithiol ac wrth i ni ei hadolygu, byddwn yn ystyried cael gwared ar y rhwystrau sy'n atal teuluoedd rhag cael cymorth o dan y rhaglen. Ledled Cymru, mae Rhaglen Plant Iach Cymru'n ceisio darparu rhaglen genedlaethol strwythuredig i blant a'u teuluoedd yn y blynyddoedd cynnar er mwyn sicrhau canlyniadau gwell a'u cynorthwyo i fynd i'r afael ag ymddygiad a allai fod yn niweidiol.

Blwyddyn bontio yw hon yn awr i raglen Cymunedau yn Gyntaf, ac mae'r Cyrff Cyflawni Arweiniol wedi derbyn 70% o gyllid y flwyddyn flaenorol ac yn cael pob cymorth gan Dîm Pontio Llywodraeth Cymru wrth iddynt ddatblygu a gweithredu eu cynlluniau pontio. Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd: gronfa etifeddol £6m i gadw elfennau gorau, mwyaf effeithiol Cymunedau yn Gyntaf; £4m yn rhagor o gyllid cyfalaf i helpu i warchod asedau cymunedol gwerthfawr; a buddsoddiad ychwanegol o £12m i estyn ein rhaglenni Cymunedau am Waith ac Esgyn, sydd ill dwy'n helpu'r rhai sy'n wynebu rhwystrau rhag cael swyddi i gael gwaith cynaliadwy. Mae'r cyllid i Gyngor ar Bopeth Cymru a Street Games hefyd yn parhau.

**Nodir isod ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad:**

**Argymhelliad 1**
*Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod awdurdodau lleol yn nodi'r holl raglenni a ddarperir ar hyn o bryd gan Cymunedau yn Gyntaf a ddylai gael eu darparu gan gyrff statudol eraill, a bod cyfrifoldeb am y rhaglenni hynny sy'n llwyddiannus ac yn cael eu gwerthfawrogi gan gymunedau lleol yn cael ei drosglwyddo i'r corff statudol perthnasol.*

**Ymateb: Derbyn**

Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i roi'r argymhelliad hwn ar waith. Mae Adran Bontio Cymunedau yn Gyntaf yn cydweithio'n agos â nifer o adrannau Llywodraeth Cymru i hwyluso gwaith pontio a phrif ffrydio prosiectau sy'n cael eu darparu gan Cymunedau yn Gyntaf. Mae cyfres o weithdai a chyfarfodydd wedi eu trefnu rhwng byrddau iechyd a Chyrff Cyflawni Arweiniol i edrych ar yr hyn sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd yn yr ardaloedd hyn ac i geisio prif ffrydio agweddau llwyddiannus ar y rhaglen.

Mae Prif Weithredwr GIG Cymru wedi ysgrifennu at ei gydweithwyr yn y byrddau iechyd yn galw arnynt i fanteisio ar y gweithdai sy'n cael eu hwyluso gan Lywodraeth Cymru i drafod goblygiadau cau'r rhaglen. Yn yr un modd, bydd swyddogion yn cwrdd ag amryw o gydweithwyr addysg i nodi'r prosiectau na fyddant yn cael cyllid Cymunedau yn Gyntaf ar ôl tymor yr haf 2016-17.

**Goblygiadau Ariannol**: Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

**Argymhelliad 2**
*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cadarnhau am faint fydd y cyllid etifeddol ar gael cyn gynted ag y bo modd, ac yn cyfathrebu'r wybodaeth hynny i bob awdurdod lleol ac i'r cyrff statudol perthnasol eraill.*

**Ymateb: Derbyn**

Cytunwyd ar gyllid y Gronfa Etifeddiaeth am ddwy flynedd ariannol yn dechrau yn 2018-19. Mae'r wybodaeth hon eisoes yn wybodaeth gyhoeddus ac fe'i cyhoeddwyd yn y datganiad llafar ar 14 Chwefror 2017. Cafodd egwyddorion

y grant eu llunio ar y cyd â'r cyrff cyflawni arweiniol a chânt eu cyhoeddi maes o law.

**Goblygiadau Ariannol**: Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

**Argymhelliad 3**
*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod pob cyngor a chyfarwyddyd i awdurdodau lleol ar gael ar ffurf ysgrifenedig i ategu'r cymorth a ddarperir yn bersonol neu ar lafar.*

**Ymateb: Derbyn**

Mae canllawiau Pontio a Strategaeth Cymunedau yn Gyntaf eisoes ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Bydd unrhyw ganllawiau ffurfiol pellach hefyd ar gael yn ysgrifenedig ac yn cael eu cyhoeddi. Pan fo awdurdodau lleol yn gofyn am gadarnhad ysgrifenedig o gyngor wedi'i deilwra rydym yn hapus i ddarparu hynny.

**Goblygiadau Ariannol**: Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

**Argymhelliad 4**
*Rydym yn argymell yn gryf bod strategaeth glir ar gyfer trechu tlodi yn cael ei chyhoeddi, un sy'n dwyn ynghyd yr elfennau niferus o waith i leihau tlodi i helpu i ddarparu cyfeiriad clir ac i helpu'r Cynulliad i graffu ar ddull y Llywodraeth. Dylai'r strategaeth gynnwys dangosyddion perfformiad clir i sicrhau rheoli perfformiad effeithiol, yn ogystal â nodi sail dystiolaeth ehangach i helpu i ategu gwerthusiad effeithiol o wahanol ddulliau o drechu tlodi.*

**Ymateb: Gwrthod**

Nod allweddol y Llywodraeth hon yw sicrhau ffyniant i bawb ac amlinellir sut y byddwn yn mynd ati i gyflawni hyn yn y strategaeth genedlaethol arfaethedig, i'w chyhoeddi ar ddechrau tymor yr hydref.

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros gydlynu mesurau trawsbynciol i hybu cyfleoedd economaidd i bawb ac i fynd i'r afael â thlodi. Mae pob un o Ysgrifenyddion y Cabinet a'r Gweinidogion hefyd yn gyfrifol am greu Cymru fwy llewyrchus a mwy cyfartal, gan alluogi'r llywodraeth gyfan i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi tlodi.

Mae hybu ffyniant, a chefnogi economi gref sy'n creu cyflogaeth gynaliadwy sydd ar gael i bawb yn hanfodol er mwyn trechu tlodi. Bydd y strategaeth drawsbynciol hon yn darparu fframwaith ar gyfer dull gweithredu'r llywodraeth gyfan i hybu ffyniant a mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi tlodi mewn ffordd fwy effeithiol a chydgysylltiedig.

Mae Tasglu Gweinidogol y Cymoedd yn profi'r dull integredig hwn o gefnogi cymunedau ac ymateb i anghenion ein dinasyddion, gan gynnwys anghenion y rhai sy'n byw mewn tlodi, a bydd yn darparu tystiolaeth a gwybodaeth gynnar ddefnyddiol.

Rydym yn awyddus i osgoi cael strategaethau ar wahân nad ydynt yn ymdrin mewn modd cyfannol â materion cymhleth. Dim ond drwy gydgysylltu popeth a wnawn y gallwn ymateb yn effeithiol i her hirdymor mynd i'r afael â thlodi.

**Goblygiadau Ariannol**: Dim.

**Argymhelliad 5**
*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried cyflogadwyedd yn ei ystyr ehangaf, ac mewn canllawiau i awdurdodau lleol, yn ei gwneud yn glir y dylai cymorth cyflogadwyedd gwmpasu pob cam o'r daith at waith, gan gynnwys unrhyw gymorth angenrheidiol sydd ei angen unwaith y mae person wedi llwyddo i gael gwaith*.

**Ymateb: Derbyn**

Bydd Grant Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru'n darparu seilwaith i helpu i barhau i ddarparu Cymunedau am Waith, bwrw ymlaen â'r hyn a ddysgwyd o Raglen Esgyn, a galluogi Awdurdodau Lleol i wella eu cymorth cyflogaeth i'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur, a'r rheiny'n aml yn wynebu rhwystrau cymhleth.

Bydd hefyd yn golygu y gellir rhoi cymorth i bobl nad ydynt yn bodloni meini prawf cymhwyso Cymunedau am Waith neu sy'n byw y tu allan i ardaloedd clwstwr presennol Cymunedau yn Gyntaf.

Bydd y Grant Cyflogadwyedd yn helpu unigolion sy'n byw mewn tlodi, neu y mae perygl y gallent fod mewn tlodi, yn unol â'r rhwymedigaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Bydd yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddarparu llwybrau rhwng rhaglenni er mwyn darparu ymyriadau a chymorth i atal pobl rhag bod heb waith ac i atal anweithgarwch economaidd.

Bydd y canllawiau i Awdurdodau Lleol yn pwysleisio pwysigrwydd cynorthwyo'r rhai sy'n cymryd rhan i fynd i'r afael â rhwystrau i gyflogaeth, datblygu sgiliau cyflogadwyedd a dod o hyd i waith, yn ogystal â'u grymuso, eu hysgogi a'u cynorthwyo i ddod o hyd i swyddi, cadw'r swyddi hynny a symud ymlaen yn eu swyddi.

Mae gan ein rhaglenni cyflogadwyedd ran arwyddocaol i'w chwarae i sicrhau ein bod yn cyflawni ein hymrwymiad i weithio gyda phob grŵp gwarchodedig i atal gwahaniaethu a sicrhau bod cyfleoedd ar gael i bawb.

**Goblygiadau Ariannol**: Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

**Argymhelliad 6**
*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried dileu rhwystrau sy'n atal teuluoedd rhag cael mynediad at gymorth drwy'r rhaglen Dechrau'n Deg. Os oes cyllid ar gael, os oes lle a bod angen y cymorth, gallai rhaglenni Dechrau'n Deg gefnogi teuluoedd sy'n anghymwys dim ond oherwydd eu cod post.*

**Ymateb: Derbyn**

Fel y gŵyr y Pwyllgor, rhaglen wedi'i thargedu sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru yw Dechrau'n Deg, ar gyfer teuluoedd â phlant o dan 4 oed mewn ardaloedd penodedig y nodwyd eu bod ymhlith yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Bydd Awdurdodau Lleol yn derbyn cyllid refeniw o dros £76 miliwn ar gyfer Dechrau'n Deg yn y flwyddyn ariannol hon.

Mae buddion craidd y rhaglen yn rhai y mae tystiolaeth wedi dangos eu bod yn dylanwadu ar ganlyniadau cadarnhaol i blant a'u teuluoedd:
- gofal plant rhan amser o safon uchel i blant 2-3 oed;
- gwell gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd;
- cymorth a rhaglenni rhianta ar gael;
- cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu ar gael.

Mae'r rhaglen yn cael ei darparu ar hyn o bryd i dros 37,000 o blant o dan 4 oed, sef tua 25% o'r holl blant o dan 4 oed yng Nghymru.

Mae Dechrau'n Deg yn destun targedu daearyddol gan ddefnyddio data ynghylch budd-daliadau incwm a ddarperir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a Chyllid a Thollau EM. Mae'r data hwn yn rhoi gwybodaeth i Awdurdodau Lleol am Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is sy'n dangos cyfran y plant o dan 4 oed sy'n byw ar aelwydydd sy'n hawlio budd-daliadau incwm ym mhob un o'r ardaloedd hynny. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru'n cyfarwyddo Awdurdodau Lleol i roi blaenoriaeth i Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is o ran cymorth Dechrau'n Deg, ar restr yn nhrefn blaenoriaeth o ran y crynhoad uchaf o blant difreintiedig.

Mae rhywfaint o hyblygrwydd eisoes i Awdurdodau Lleol i ddarparu cymorth Dechrau'n Deg i blant a'u teuluoedd sy'n byw y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg – dyma a elwir yn elfen allgymorth y rhaglen.

Fel yr amlinellir yn y canllawiau, mae cyllid allgymorth yn rhoi hyblygrwydd i'r timau Dechrau'n Deg i ddarparu elfennau o raglen Dechrau'n Deg i'r teuluoedd mwyaf anghenus ledled yr awdurdod lleol, a gellir ei ddefnyddio mewn un o dair ffordd:

1. *Plant teuluoedd sy'n symud o ardaloedd Dechrau'n Deg* – Gellir defnyddio cyllid allgymorth i sicrhau parhad y gwasanaeth a chymorth angenrheidiol i blant sy'n symud o ardaloedd Dechrau'n Deg y nodwyd (drwy baneli neu offer asesu teuluol lleol) eu bod yn rhai ag anghenion canolig-uchel.

2. *Plant teuluoedd sy'n byw y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg* – Yn rhan o becyn cymorth wedi'i deilwra, gall cydlynwyr Dechrau'n Deg ofyn am hawliau unigol Dechrau'n Deg i unrhyw blentyn yn yr awdurdod lleol sydd o dan 4 oed.
3. *Cymunedau Buddiant* – Gall timau Dechrau'n Deg ddefnyddio'u cyllid allgymorth i dargedu plant mewn cymunedau buddiant penodol yn eu hawdurdod lleol. Gall y rhain gynnwys llochesi i fenywod; cymunedau teithwyr; llochesi i'r digartref; menywod mewn carchardai.

**Goblygiadau Ariannol**: Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

**Argymhelliad 7**
*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud hi'n glir beth yw ystyr grymuso mewn perthynas â blaenoriaethau awdurdodau lleol yn ystod cyfnod pontio Cymunedau yn Gyntaf a thu hwnt.*

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Yn unol â'n hymrwymiadau yn Symud Cymru Ymlaen, mae canolbwyntio ar "rymuso" yn rhan allwedd o'n gwaith i greu cymunedau cryf. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid ar draws pob sector (gan gynnwys Awdurdodau Lleol, y trydydd sector, sefydliadau cymunedol, a busnesau) i greu amgylchedd sy'n grymuso cymunedau i fod yn rhan o'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac yn bartneriaid wrth gynllunio a darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Er mwyn llywio'r dull gweithredu hwn, rydym yn gweithio gydag arbenigwyr ac academyddion er mwyn gallu defnyddio'r dystiolaeth a'r hyn a ddysgwyd o raglenni ac arferion y gorffennol. Mae Tasglu'r Cymoedd yn cynnig cyfle i brofi ffyrdd newydd o weithio.

Amlinellwyd yng Nghanllawiau Pontio a Strategaeth Cymunedau yn Gyntaf fod grymuso'n rhan ganolog o greu cymunedau cryf. Nodwyd yn glir ynddynt fod yn rhaid cynnwys cymunedau mewn gwaith cynllunio a phenderfyniadau ynghylch Cymunedau yn Gyntaf. Roedd yn rhaid i'r Cyrff Cyflawni Arweiniol nodi eu trefniadau ar gyfer gweithio gyda chymunedau yn eu cynllun pontio ar gyfer 2017/18 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Mae'r canllawiau'n diffinio grymuso fel "sicrhau bod cymunedau'n cymryd diddordeb ac yn cael eu grymuso i fynegi eu llais yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt."

**Goblygiadau Ariannol**: Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

**Argymhelliad 8**
*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y dangosyddion hyn yn gyson ar draws Cymru gyfan, eu bod ar gael yn gyhoeddus wedi'u*

*dadansoddi fesul awdurdod lleol a'u bod ar gael i'r Pwyllgor er mwyn cynorthwyo gyda gwaith craffu.*

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae'r Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol yn darparu fframwaith i fesur ein cynnydd fel cenedl tuag at y nodau llesiant. Mae'r rhain yn cynnwys dangosyddion allweddol ynghylch tlodi, cymunedau a ffyniant. Fe'u cyhoeddir fel Ystadegau Swyddogol dan gyfrifoldeb y Prif Ystadegydd a byddant ar gael yn gyhoeddus fel data agored ac yn cynnwys cymaint o fanylion â phosib.

Rydym yn derbyn hefyd na fyddant, fel mesuryddion canlyniadau, yn mesur perfformiad rhaglenni unigol. Lle bo dangosyddion penodol yn angenrheidiol ac yn briodol i fesur perfformiad rhaglenni unigol rydym yn cytuno y dylid eu cynhyrchu mewn modd cyson ledled Cymru a'u cyhoeddi mewn modd tryloyw ac fel data agored. Bydd rhaglenni unigol hefyd yn cael eu gwerthuso er mwyn deall eu cyfraniad i wella canlyniadau i'r rhai sy'n cymryd rhan ac er mwyn sicrhau y deellir yn llawn unrhyw welliannau i gynllunio a gweithredu'r rhaglen; cyhoeddir yr astudiaethau hyn yn unol ag Egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwaith Ymchwil a Gwerthuso (http://gov.wales/statistics-and-research/about/?skip=1&lang=cy)

**Goblygiadau Ariannol**: Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

**Argymhelliad 9**
*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu dangosfwrdd o ddangosyddion tlodi ochr yn ochr â sefydliad fel Sefydliad Bevan neu Sefydliad Joseph Rowntree i sicrhau bod cynnydd yn cael ei fesur.*

**Ymateb: Gwrthod**

Ac ystyried y gwaith sy'n mynd rhagddo sy'n amlinellu ein gwaith dadansoddi ar setiau data tlodi cyfredol, ein hymrwymiad i adrodd yn flynyddol ar y cynnydd tuag at gyflawni'r saith nod llesiant drwy'r Dangosyddion Cenedlaethol a'r gwaith monitro parhaus ar ddangosyddion y Strategaeth Tlodi Plant, nid ydym o'r farn mai creu dangosfwrdd ychwanegol o ddangosyddion fyddai'r ffordd orau o ddefnyddio adnoddau ar hyn o bryd.

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod angen cyhoeddi a defnyddio ystod o ddangosyddion a data arall i fesur cynnydd o ran trechu tlodi. Rydym ar hyn o bryd yn cynnal ac yn cyhoeddi gwaith dadansoddi ar setiau data trawstoriadol allweddol (gan gynnwys setiau data Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog, yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ac Arolwg Cenedlaethol Cymru) er mwyn dod i ddeall tlodi a bod heb waith yng Nghymru yn well. Rydym hefyd yn ddiweddar wedi dwyn ynghyd ystod o adnoddau sy'n berthnasol i dlodi, gan gynnwys data ar amddifadedd sylweddol a thlodi parhaus, ar dudalen Ystadegau ac Ymchwil gwefan Llywodraeth Cymru.

Ym mis Medi eleni, byddwn yn cyhoeddi *Llesiant Cymru*, yr adroddiad cyntaf ar gynnydd casgliadol ein cenedl tuag at y saith nod llesiant o safbwynt y Dangosyddion Cenedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys nifer o ddangosyddion tlodi allweddol sy'n canolbwyntio ar yr agenda ffyniant ehangach ynghylch yr economi, iechyd, addysg a sgiliau.

Yn ogystal, byddwn yn parhau i adrodd ar ddangosyddion allweddol *Strategaeth Tlodi Plant 2015* gan adlewyrchu ysgogiadau polisi Llywodraeth Cymru a all gael yr effaith fwyaf ar lefelau tlodi plant yng Nghymru. Adroddwyd ar y gyfres hon o ddangosyddion ym mis Rhagfyr 2016 yn adroddiad cynnydd statudol Llywodraeth Cymru ar dlodi plant. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys cyfres o fodelau rhesymeg sy'n nodi sut mae polisïau a rhaglenni Llywodraeth Cymru'n cynorthwyo aelwydydd incwm isel ac yn nodi pa ddangosyddion a ddefnyddir i fesur cynnydd yn erbyn pob un o'r amcanion tlodi plant.

Mae gan Lywodraeth Cymru berthynas waith gref â Sefydliad Joseph Rowntree a Sefydliad Bevan, yn enwedig o safbwynt datblygu eu fframwaith gweithredu yng Nghymru, 'Ffyniant heb Dlodi'. Bydd y berthynas hon yn parhau a rhoddir ystyriaeth i unrhyw ganfyddiadau a gyhoeddir ynghylch ffyniant i bawb.

**Goblygiadau Ariannol**: Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

**Argymhelliad 10**
*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio dichonoldeb sefydlu astudiaeth hydredol o dlodi yng Nghymru.*

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Rydym wedi ymrwymo i wella ffyniant i bawb yng Nghymru. Er ein bod yn gyffredinol gefnogol i astudiaeth hydredol o dlodi, mae heriau methodolegol i gynnal astudiaeth o'r fath a phryderon efallai na fyddai'r budd posib yn cyfiawnhau'r costau sylweddol sydd ynghlwm wrth gynnal astudiaeth o'r fath.

O ran olrhain tlodi drwy gynnal arolwg cynrychioladol o'r boblogaeth, mae data ar gael i ni drwy Arolwg Cenedlaethol Cymru a'r Arolwg o Adnoddau Teuluol; er hynny, rydym yn cydnabod nad yw hyn yn olrhain yr un unigolion dros amser. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru eisoes yn atgyfnerthu astudiaeth hydredol Cohort y Mileniwm sydd, er ei bod yn canolbwyntio ar un cohort oedran yn unig, yn destun adroddiadau rheolaidd megis drwy Fonitor Lles Plant a Phobl Ifanc (gweler y cyfeiriad isod).

Yn 2014 aethom ati i gynnal adolygiad o atgyfnerthu arolwg y DU, Arolwg Panel Cartrefi Prydain, a'i olynydd Deall Cymdeithas, yr ydym yn ei gydariannu. Cyn hyn, rhoddwyd ystyriaeth hefyd i atgyfnerthu meintiau samplau Cymru ar gyfer yr Arolwg o Adnoddau Teuluol a'r Arolwg Cyfoeth ac Asedau. Ym mhob achos, daethpwyd i'r casgliad ar y pryd fod y gost yn rhy

uchel ac y byddai angen i faint sampl Cymru fod gryn dipyn yn fwy i ddadgyfuno i'r manylder angenrheidiol.

Fodd bynnag, wrth i Lywodraeth Cymru ysgwyddo pwerau trethu ychwanegol byddwn yn gwneud gwaith i archwilio dichonoldeb astudiaeth hydredol, gan edrych ar y costau, yr opsiynau, y buddion ac effeithiau astudiaeth bosib ochr yn ochr â ffyrdd eraill o wella data. Yn ogystal, mae cryn bosibiliadau o ran cysylltu data drwy'r Rhwydwaith Ymchwil Data Gweinyddol a allai fod yn ffordd gryfach o ddeall canlyniadau unigolion dros amser, a hynny'n fwy manwl nag y byddai un arolwg newydd yn ei ganiatáu.

**Goblygiadau Ariannol**: Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

**Argymhelliad 11**
*Mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried ac asesu effaith cau Cymunedau yn Gyntaf ar raglenni eraill Llywodraeth Cymru a gwneud addasiadau i'r rhaglenni perthnasol i liniaru unrhyw ganlyniadau anfwriadol sy'n deillio o gau Cymunedau yn Gyntaf.*

**Ymateb: Derbyn**

Mae Tîm Pontio Cymunedau yn Gyntaf wedi bod yn cydweithio'n agos â'r rhai sy'n ymwneud â chau Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, yn fewnol ac yn allanol.

Mae uwch swyddogion wedi cwrdd â phob Corff Cyflawni Arweiniol yn unigol ar sawl achlysur i drafod dulliau gweithredu cychwynnol, sut y maent yn cyfathrebu â'u cymunedau ynghylch datblygu cynlluniau pontio manwl a rhoi hynny ar waith yn ystod y flwyddyn bontio.

Mae Rhwydwaith y Cyrff Cyflawni Arweiniol, a arferai gwrdd ddwywaith y flwyddyn, bellach yn cwrdd bob yn ail fis er mwyn sicrhau bod yr effeithiau'n cael eu hasesu a bod cymorth yn cael ei gynnig yn sgil unrhyw bryderon a godir.

Mae'r Tîm Pontio eisoes yn ystyried yr effaith ar raglenni a ffrydiau cyflawni eraill Llywodraeth Cymru drwy sicrhau bod yr adrannau'n gwybod am newidiadau posib ac i ystyried lle y gellid prif ffrydio darpariaeth Cymunedau yn Gyntaf a'i chyflenwi'n lleol.

Er enghraifft, mae cyfres o weithdai wedi'u trefnu rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru, Cyrff Cyflawni Arweiniol Cymunedau yn Gyntaf a Byrddau Iechyd Lleol lle mae prosiectau unigol wedi cael eu hadolygu. Mae hyn wedi cynnig cyfle i'r byrddau iechyd i weld yr hyn a arferai gael ei ddarparu drwy Cymunedau yn Gyntaf a'r hyn y gellir bwrw ymlaen ag ef yn ymarferol wedi i raglen Cymunedau yn Gyntaf ddirwyn i ben. Yn yr un modd, mae cyfarfodydd cychwynnol yn awr yn cael eu cynnal gydag uwch swyddogion a rheolwyr gyfarwyddwyr consortia addysg.

**Goblygiadau Ariannol**: Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

**Carl Sargeant**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant**